

85

Mlynedd o
Years of

**cyngor ar
bopeth**

**citizens
advice**

Cyngor dibynadwy mewn cyfnod o newid

**Adroddiad Effaith 2024–2025
Cyngor ar Bopeth Cymru**



Ni yw Cyngor ar Bopeth Cymru

**Rydym yn bodoli i lunio cymdeithas lle mae
pobl yn wynebu llai o broblemau.**

Gallwn i gyd wynebu problemau sy'n ymddangos yn gymhleth neu'n frawychus. Yn Cyngor ar Bopeth rydyn ni'n credu na ddylai neb orfod wynebu'r problemau hyn heb gyngor annibynnol o ansawdd da. Mae Cyngor ar Bopeth yn cynnig cyngor cyfrinachol ar-lein, dros y ffôn, ac yn bersonol, yn rhad ac am ddim. Pan fyddwn ni'n dweud ein bod ni'n gwbl gynhwysol, rydyn ni'n golygu hynny. Mae pobl yn ymddiried ynom ni oherwydd ein bod ni'n annibynnol ac yn gwbl ddiduedd. Nid oes neb arall yn gweld cymaint o bobl gyda chymaint o wahanol fathau o broblemau, ac mae hynny'n rhoi mewnwleidiad unigryw i ni i'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu yng Nghymru heddiw. Gyda'r dystiolaeth gywir, gallwn ddangos i sefydliadau mawr - gan gynnwys cwmnïau a hyd yn oed llywodraethau – sut y gallant wella pethau i bobl.

Dyna pam rydyn ni yma: i roi gwybodaeth a hyder i bobl er mwyn iddynt ddod o hyd i ffordd ymlaen - pwy bynnag ydynt a beth bynnag fo'u problem. Ni yw cefnogwr y bobl.

“Nid yw llawer o bobl yn ymwybodol o'r gwahaniaeth y gall Cyngor ar Bopeth ei wneud, a'r pethau y gallant helpu gyda nhw. Dwi am helpu i rannu'r rhyddid sy'n dod o fynd at Cyngor ar Bopeth. Mae pwysau wedi cael ei godi, ac rwy'n gallu anadlu eto.”

Cyflwyniad

Gan Gyfarwyddwr Cyngor ar Bopeth Cymru, Simon Hatch

Drwy gydol 2024/25, cyflawnodd Cyngor ar Bopeth Cymru ganlyniadau rhyfeddol i bobl ledled Cymru. Roedd ein 19 tîm Cyngor ar Bopeth lleol ar flaen y gad o ran helpu pobl i ymdopi â phwysau cynyddol costau byw. Mae ein gwirfoddolwyr a staff yn dod o gymunedau lleol ac yn gweld yn ddyddiol effeithiau'r tlodi cynyddol. Mae ansawdd y timau lleol hyn heb ei ail ac maent wedi dangos gallu anhygoel i ymateb i'r pwysau parhaus a chyfnewidiol sy'n wynebu cymunedau lleol ledled Cymru.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn helpu mwy o bobl yng Nghymru nag erioed o'r blaen, ond rydym hefyd yn gweld nifer cynyddol o bobl sydd eisiau ac angen mynediad at ein gwasanaethau. Cafodd 208,000 o bobl help gennym yn 2024–25 o'i gymharu â 192,500 o bobl y flwyddyn flaenorol (cynnydd o 8.5%). Mae ein partneriaethau hanfodol, gan gynnwys gyda Llywodraeth Cymru, yn ein galluogi i gefnogi'r bobl fwyaf ymylol a bregus yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu sut mae'r cyngor a roddwn yn helpu pobl yng Nghymru i ddod o hyd i ffordd ymlaen. Mae'n dangos sut, drwy wrando ar brofiadau pobl, rydym yn eirioli dros atebion hirdymor i broblemau cymhleth. Rydym bob amser yn canolbwyntio ar ddod o hyd i atebion ymarferol sy'n rhoi arian ym mhocedi pobl a chamau ataliol sy'n gwella bywydau pobl.

Mwy nag erioed o'r blaen, mae angen am fuddsoddiad mewn gwasanaethau cynghori annibynnol, wedi'u hardystio o ran ansawdd ac sydd ar gael yn hawdd – ac mae angen i'r buddsoddiad hwn dyfu os ydym am atal a mynd i'r afael â'r heriau cymdeithasol ac economaidd niferus sy'n wynebu cymunedau ledled Cymru. Oherwydd hyn, roeddem wrth ein bodd pan yn 2024 y llwyddodd ein timau Cyngor ar Bopeth lleol i sicrhau buddsoddiad hanfodol gan Gronfa Cynghori Sengl Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau cymunedol dros y tair blynedd nesaf.

Yn 2024/25 cyflwynasom weithio sail-cenhadaeth ar draws Cyngor ar Bopeth i'n galluogi i feddwl yn fanwl am yr heriau sy'n wynebu'r system gyfan.

Mae ein tair cenhadaeth gwasanaeth-gyfan yn amlinellu uchelgeisiau beiddgar hirdymor ar gyfer ein gwasanaeth. Maent yn gosod cyfeiriad i alinio ein hymdrechion a chymell arloesedd a datrys problemau ar y cyd er mwyn:

- 1 Darparu cyngor sy'n addas ar gyfer y dyfodol** – byddwn yma i bobl pan fyddant ein hangen yn y ffyrdd sy'n helpu i wneud yr effaith fwyaf.
- 2 Cau'r bwlch** – byddwn yn dileu'r gwahaniaethau mewn mynediad a phrofiad i bobl ymylol.
- 3 Cymryd camau cynnar** – byddwn yn atal mwy o bobl rhag profi argyfwng drwy fynd i'r afael â phroblemau'n gynharach.

Byddwn yn datblygu'r gwaith hwn yn y blynnyddoedd i ddod er mwyn gwrandao ar bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau – a'r rhai sydd ddim – fel y gallwn ddarparu'r cymorth gorau posibl yn Gymraeg ac yn Saesneg i gymunedau ledled Cymru.

Cenhadaeth 1:

Cyngor sy'n addas ar gyfer y dyfodol

Mae dadansoddiad annibynnol wedi dangos fod y galw am gyngor o ansawdd uchel sydd wedi'i ardystio yn uchel ar draws Cymru, yn fwy na'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol, ac mae'r galw hwn yn cynyddu. Mae sicrhau bod ein cyngor yn addas ar gyfer y dyfodol yn golygu ymestyn allan yn weithredol at y bobl sydd angen cyngor fwyaf. Gweithio'n ataliol yw'r ffordd orau o weithredu. Fel arfer, po gynharaf y gallwn gyrraedd pobl, po fwyaf yw'r nifer o opsiynau sydd ar gael ar gyfer canlyniadau cadarnhaol.

Gwasanaeth wedi'i dargedu gan Cyngor ar Bopeth ar gyfer pobl sydd fwyaf angen gwasanaethau cyngor, a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru o dan ei Gronfa Gyngori Sengl yw Advicelink Cymru. Mae Advicelink Cymru yn cynnig gwasanaeth cyngor o ansawdd dibynadwy ar draws Cymru, yn cwmpasu'r meysydd cyngor canlynol:

- Budd-daliadau lles
- Dyled a gallu ariannol
- Tai
- Cyflogaeth a gwahaniaethu
- Addysg

Niferoedd ar gyfer Advicelink yn 2024–25:

 **84,030 o unigolion
wedi derbyn cymorth**

 **386,024 o faterion**

 **£45 miliwn o gynnydd mewn incwm**

 **£22 miliwn o ddyled wedi'i ddileu**
(£8 miliwn yn fwy na'r llynedd)

 **84% o gleientiaid
wedi'u cynorthwyo i ddod o hyd i ffordd ymlaen**

Cenhadaeth 1: Cyngor sy'n addas ar gyfer y dyfodol

Mae ein data yn dangos bod y bobl sydd angen ein cymorth yn wynebu nifer o faterion cysylltiedig, gyda budd-daliadau a chredydau treth, budd-daliadau a Chredyd Cynhwysol, dyled a gwasanaethau ariannol a galluedd ariannol y materion mwyaf cyffredin eleni. Mae Cyngor ar Bopeth yn cadw cofnod unigol ar gyfer pob person sy'n dod atom, ac mae pob cofnod cyfrinachol yn cynnwys gwybodaeth am oedran, rhywedd, ethnigrwydd, anabledd a chyngor lleol. Rydym hefyd yn ychwanegu'r materion y maent yn ceisio cyngor arnynt. Caiff materion parhaus eu cofnodi unwaith yn unig, a chaiff materion newydd eu hychwanegu at yr un cofnod. Mae hyn yn golygu y gall cofnod gynnwys sawl mater ar draws un neu fwy o feysydd cyngori.

Mae sicrhau mynediad hawdd at gyngor yn flaenoriaeth allweddol i Cyngor ar Bopeth. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael ar draws nifer o sianeli gan gynnwys: wyneb yn wyneb, dros y ffôn, trwy e-bost a thrwy gyfrwng gwe-sgwrs, gan sicrhau mynediad ledled Cymru o unrhyw fan. Mae ein holl swyddfeydd lleol yn cael mynediad yn ddyddiol gyda llawer mwy o leoliadau allgymorth ar draws pob awdurdod lleol. Mae pob gwasanaeth yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn ogystal â defnyddio LanguageLine i sicrhau y gellir cyfieithu gwasanaethau cyngor i ystod eang o ieithoedd cymunedol a dehongli iaith Arwyddion Prydain.

Yn sicrhau mynediad hawdd at gyngor yw blaenoriaeth allweddol i Citizens Advice Cymru.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn aelod allweddol o grŵp llywio Llywodraeth Cymru **Symleiddio Budd-daliadau Cymru** ochr yn ochr â chydweithwyr o'r sector gwirfoddol, llywodraeth leol Cymru a Llywodraeth Cymru. Diben y grŵp yw darparu dull sy'n canolbwyntio ar y person, sy'n dosturiol ac sy'n gyson wrth ddylunio a darparu budd-daliadau Cymreig, sy'n cynnwys Prydau Ysgol Am Ddim, Cynllun Lleihau'r Dreth Gyngor a Grant Hanfodion Ysgol. Mae hyn wedi'i gefnogi gan egwyddorion **Siarter Budd-daliadau Cymru**, sy'n anelu at gynorthwyo pobl yng Nghymru i ddweud eu stori unwaith yn unig er mwyn derbyn yr holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo – waeth ble maent yn byw yng Nghymru.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn dylanwadu ar waith y grŵp mewn sawl ffordd, gan gynnwys casglu adborth a mewnbwn gan ein cyngorwyr lleol ledled Cymru.





Cenhadaeth 2:

Cau'r bwlch

Mae ein cenhadaeth yng Nghymru o ran cau'r bwlch yn canolbwyntio'n benodol ar ein gwasanaeth Advicelink. Fel rhano'r gwasanaeth, mae pob rhanbarth yng Nghymru'n targedu grwpiau blaenoriaeth penodol i fynd i'r afael â'r rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gwasanaeth, sy'n cynnwys; pobl hŷn, pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, cymunedau lleiafrifoedd ethnig, ymhlith grwpiau eraill. Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi datgan bod dros 80% o'r cleientaid a gefnogwyd gennym yn perthyn i'r grwpiau hyn, gan sicrhau bod ein gwasanaethau mor hygyrch â phosibl i'r rhai sydd fwyaf angen ein cymorth.

Mae Advicelink yn cynnwys nifer o wasanaethau sy'n cael eu darparu mewn 6 rhanbarth ledled Cymru gan rwydwaith o swyddfeydd Cyngor ar Bopeth lleol a phartneriaid cyngor a mynediad a gyllidir. Yn ogystal â gwasanaethau cymunedol rhanbarthol ac arbenigol, llinell ffôn o bell Cymru-gyfan, a system atgyfeirio electronig, mae Advicelink yn darparu'r canlynol:

- Ym mis Mawrth 2025, cyrhaeddodd y garreg filltir sylweddol o 21,500 o atgyfeiriadau electronig ers dechrau Advicelink. Gyda dros 100 o bartneriaid atgyfeirio ar ein system, helpodd ein hystod eang o bartneriaid mynediad cymunedol ni i gysylltu â phobl sydd fwyaf angen cyngor ac yn ei dderbyn am y tro cyntaf.

- Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi, ymgyrch a ariennir gan Lywodraeth Cymru i facsimeiddio incwm a chynyddu'r defnydd o fudd-daliadau gan ddarparu cyngor am ddim a chyfrinachol dros y ffôn am fudd-daliadau y gall pobl fod â hawl iddynt. **Mae'r gwasanaeth hwn wedi cefnogi mwy na 50,000 o bobl eleni, 20,000 yn fwy na'r llynedd.** Mae'r llinell gymorth ymroddedig yn cael ei hyrwyddo trwy ymgyrchoedd hysbysebu teledu, radio ac ar-lein gan Lywodraeth Cymru.

Cenhadaeth 2: Cau'r bwlch

- Llinell Gymorth Dyledion y Sector Rhentu Preifat, gwasanaeth arbennig sy'n helpu tenantiaid sy'n rhentu'n breifat yng Nghymru ac sydd â phroblemau dyled. Nod y gwasanaeth yw helpu pobl a allai fod yn teimlo'n anobeithiol ac wedi'u llethu gan eu dyledion i deimlo'n fwy abl i reoli eu sefyllfa ariannol ac yn y pen draw, aros yn eu cartrefi. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan linell gymorth arbennig sy'n cynnig cyngor am ddim, diduedd a chyfrinachol.
- Lle i Anadlu Iechyd Meddwl, gwasanaeth cynghori dyled wedi'i dargedu ar gyfer pobl mewn argyfwng iechyd meddwl. Mae'r gwasanaeth yn darparu amddiffyniad gwell rhag credydwy, gyda chefnogaeth Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy, am gyhyd â'u bod mewn argyfwng a 30 diwrnod y tu hwnt i hynny.
- Darparodd y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal, a oedd yn weithredol tan Fehefin 2025, daliad misol o £1,600 i bobl ifanc sy'n gadael gofal wedi iddynt droi yn 18 oed. Mae ein gwasanaeth Cyngor ar Bopeth Cymru yn darparu cyngor uniongyrchol i bobl ifanc ac yn cynnig cyngor a chefnogaeth 'ail haen' i weithwyr proffesiynol awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys cyngor yn ystod pob cam, gan gynnwys cyflawni 'cyfrifiad gwell eich byd' cyn y cynllun peilot a darparu cyngor ar gyllido neu gymorth argyfwng ariannol. Gall unigolion sy'n gadael gofal gael mynediad at gyngor diduedd sy'n cael ei addasu i'w hamgylchiadau unigol. **Yn ystod y prosiect, cefnogodd Cyngor ar Bopeth Cymru dros 400 o gleientiaid unigryw gyda dros 3,900 o faterion, gan arwain at dros £500,000 o enillion incwm.**
- Roedden ni'n falch eleni bod y Llywodraeth Cymru wedi cydnabod rôl hanfodol gwasanaethau cynghori ac felly wedi cynnig cyllid hirdymor ar gyfer y Gronfa Gynghori Sengl. Bydd y model cyllido tair blynedd (gyda phosibilrwydd o dair blynedd ychwanegol) yn galluogi darparwyr i fuddsoddi mewn partneriaethau a thechnolegau sy'n darparu cyngor i gymunedau sydd heb gael digon o sylw cyn belled.

Mae darpar-leavingwyr wedi derbyn dros £500,000 o ennillion incwm drwy ein cyngor a chefnogaeth yn ystod Pigion Cynsail Llywodraeth Cymru.





Cenhadaeth 3:

Cymryd camau cynnar

Mae'r Tîm Polisi ac Ymgyrchoedd Cymru yn arwain ein gwaith ar bolisi, materion cyhoeddus a'r cyfryngau yng Nghymru. Mae ein gwaith polisi yn canolbwyntio ar wella polisiau ac arferion sy'n effeithio ar fywydau pobl er mwyn helpu i fynd i'r afael â phroblemau'n gynharach neu eu hatal yn gyfan gwbl. Mae polisiau sy'n methu yn aml yn gwaethygu sefyllfaoedd pobl yn unig. Rydym yn defnyddio tystiolaeth a gasglwyd gan bobl rydym yn eu cynorthwyo i ddangos i wneuthurwyr penderfyniadau lle nad yw pethau'n gweithio'n iawn ac i gyfiawnhau newid.

Defnyddio ein tystiolaeth er mwyn annog newid

Mae ein Dangosfwrdd Mewnwelediadau Data Cymru wedi parhau'n offeryn hanfodol, gan ddarparu data amser real am yr anawsterau ariannol y mae cleifion yn eu hwynebu, gan gynnwys tueddiadau misol ar faterion costau byw a ffocws penodol ar bynciau fel dyledion ynni ac iechyd meddwl.

Yn ystod blwyddyn pan barhaodd miloedd o bobl ledled Cymru i frwydro i dalu am hanfodion, amlygodd ein hadroddiad, **Cyrraedd Pwynt Argyfwng yng Nghymru**, realiti newydd sy'n achosi pryder, sef bod natur bod mewn argyfwng wedi newid – o sefyllfaoedd brys untro i bobl sydd mewn sefyllfa o argyfwng parhaus. Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol yn uniongyrchol at ein hadroddiad a'i rôl wrth ddylanwadu ar newidiadau i'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF). Roedd hyn yn cynnwys helpu i ddiogelu cyllid a sicrhau bod cymorth mwy pwrpasol ar gael bellach o dan y DAF.

Cenhadaeth 3: Cymryd camau cynnar

Mae Cyngor ar Bopeth ers amser maith wedi bod yn eirioli dros symleiddio'r system fudd-daliadau yng Nghymru fel bod y broses hawlio'n haws a llai dryslyd i bobl sydd angen cymorth. Mae'r Siarter Budd-daliadau Cymru newydd yn gam cadarnhaol. Ers ei lansio, rydym wedi bod yn aelod gweithgar o'r Grŵp Llywio ar gyfer Rhaglen Symleiddio Budd-daliadau Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod lleisiau hawlwr presennol a hawlwr posibl yn parhau i gael eu clywed yn glir wrth ei gweithredu.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn llunio gwaith **Adeiladu Cymru Iachach**, sy'n rhan o Strategaeth Hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer trawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r strategaeth yn anelu at symud tuag at ddull mwy ataliol, gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael â phenderfynwyr iechyd ehangach, hyrwyddo ymyrraeth gynnar a sicrhau mynediad teg a chyfartal at wasanaethau iechyd i bob person yng Nghymru. Mae'r prif themâu'n cynnwys atal ac ymyrraeth gynnar, ac mae Cyngor ar Bopeth Cymru'nlais allweddol sy'n llywio'r defnydd o gyngor annibynnol sydd am ddim fel rhan o'r gwaith hwn i gefnogi cenedl iachach ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae cyngor rhydd, annibynnol yn ganolog i greu cenedl iachach i genedlaethau'r dyfodol

Sicrhau bod profiad uniongyrchol yn llywio polisi'r Llywodraeth

Mae ein tystiolaeth cleient wedi llywio ymatebion i ymgynghoriadau allweddol, gan gynnwys Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Dai Digonol, Rhenti Teg a Fforddiadwyedd, yn dilyn ein galwad i dai digonol gael eu gwreiddio fel hawl gyfreithiol yng Nghymru. Rydym hefyd wedi dadlau am amddiffyniad gwell yn erbyn troi allan heb fai.

Gyda mwy o bobl yn byw mewn tlodi dyfnach yng Nghymru, mae'r angen i godi safonau byw yn dod yn fwyfwy hanfodol. Rydym yn aelod gweithgar o Grŵp Cyfeirio Allanol Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru, ac wedi bod yn gweithio gydag eraill i ddylanwadu ar Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth y DU, gan gynnwys trafodaethau penodol gyda gweinidog yn Llywodraeth y DU. Fel aelod o'r Panel Cyngori ar Dlodi Tanwydd, rydym yn defnyddio ein mewnwelediadau i lywio dull Llywodraeth Cymru, gan bwysleisio'r angen am gymorth bil mwy penodol a chamau brys ar gartrefi sydd ag inswleiddio gwael.

Rydym hefyd yn gweithredu fel ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Defnyddwyr. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau hanfodol, megis dŵr a band eang.



Ein hymrwymiad i'r Gymraeg

Gwella hygyrchedd yn y Gymraeg

Yn Cyngor ar Bopeth, rydym yn credu y dylai pawb gael mynediad at gyngor o ansawdd da yn y Gymraeg. Yn 2020, lansiwyd ein 'Cynnig Cymraeg' er mwyn darparu gwasanaeth gwell i bobl.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio'n galed i wella nifer y tudalennau ar ein gwefan sy'n gwbl ddwyieithog - ond nawr mae angen i ni edrych i'r dyfodol a gweld sut y gallwn ymgorffori'r iaith Gymraeg ymhellach yn ein gwasanaethau craidd fel y gall mwy o bobl gael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn y Gymraeg.

Rydym yn ymwybodol y bydd bob amser le i wella profiad pobl wrth ddefnyddio ein gwasanaethau yn y Gymraeg a byddwn yn parhau i wneud gwelliannau yn y maes hwn.

Ehangu ein cyrhaeddiad trwy bartneriaethau ystyrlon

Mae partneriaethau strategol a gweithredol yn elfen sylfaenol o’n gwaith yng Nghymru. Mae ein gwasanaeth Advicelink Cymru yn darparu cyngor i bobl a chymunedau sydd heb gael digon o sylw, gyda dros 70% o gleientiaid yn cael eu cyrraedd yn ystod cam cynnar.

Drwy bartneru â sefydliadau sy’n cael eu harwain gan ac yn cyd-weithio gyda chymunedau lleol, gallwn gynyddu ymwybyddiaeth pobl o werth pellgyrhaeddol cyngor ac annog mwy o atgyfeiriadau at swyddfeydd Cyngor ar Bopeth lleol. Yn y modd hwn, gellir darparu cyngor ardystiedig o ran ansawdd gyda chefnogaeth gynhwysfawr gan bartneriaid. Gall y gefnogaeth hon fod yn ymarferol, emosiynol, clinigol neu gymdeithasol.

“Oherwydd ymddeoliad cynnar, roedd arian yn dechrau bod yn brin i fy rhieni, a bydd hyn nawr yn gwneud gwahaniaeth mawr iddyn nhw. Rwy’n wirioneddol ddiolchgar.”

Mae llawer o fanteision i weithio mewn partneriaeth, gan gynnwys:

- Darparu gwasanaethau cynghori i bobl sydd fwyaf angen cymorth, cyn iddynt gyrraedd pwynt argyfwng.
- Llwybrau atgyfeirio cyflymach a symlach fel nad yw pobl yn disgyn drwy’r bylchau rhwng sefydliadau.
- Gwell dealltwriaeth o anghenion cynghori newydd sy’n dod i’r amlwg.
- Adborth sy’n ein helpu ni i sicrhau bod ein cyngor a’n cefnogaeth yn gweddu orau i anghenion y person rydym yn eu cynorthwyo.

Yn 2024–2025, gwelsom gynydd yn ein gwaith partneriaeth ledled Cymru, gyda mwy o bartneriaid yn ymuno â’n platfform atgyfeirio ar-lein. Mae’r partneriaid hyn yn amrywio o sefydliadau cenedlaethol fel Shelter Cymru, SNAP Cymru a Chyngor Ffoaduriaid Cymru; i sefydliadau lleol, cymunedol fel KIM Inspire, Travelling Ahead, ac Eiriolaeth Gorllewin Cymru. **Roedd gennym dros 45 partner yn gwneud 3,037 o e-atgyfeiriadau, gan gynyddu cyfanswm yr e-atgyfeiriadau i dros 21,500 ers dechrau’r prosiect yn 2020.**

Mae cyngor ardystiedig o ran ansawdd yn hanfodol wrth fynd i’r afael â’r ffactorau cymdeithasol ehangach sy’n achosi iechyd gwael ac anghydraddoldebau parhaus. I fod yn sicr bod canlyniadau ac effaith gymdeithasol cyngor ar gyfer pobl a chymunedau yng Nghymru yn cael eu deall yn dda, rydym yn cynrychioli’r sector cynghori ar Grŵp Llywio Llesiant Ariannol Llywodraeth Cymru a’r Gwasanaeth Arian a Phensiynau, ac y Cyngor Partneriaeth Trydydd Sector. Rydym hefyd yn cadeirio’r Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol sy’n dod â sefydliadau cenedlaethol ynghyd yn rheolaidd i rannu gwybodaeth, data ynghylch tueddiadau ac i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Ein heffaith mewn niferoedd

Llynedd, helpodd ein gwasanaeth

**dros
182,000
o gleientiaid**

ledled Cymru.

Ymwelwyd â'n gwefan

 **dros
1.6 miliwn
o weithiau**

gan arwain at filiynau
o ymweliadau i'n
tudalennau.

Cefnogwr y bobl ers 85 mlynedd
Adroddiad Effaith Cyngor ar Bopeth 2024–2025

Gan gynnwys y cleientiaid a gefnogwyd gennym trwy Advicelink, cafodd:

127,000



o bobl gymorth dros y ffôn

56,000



o bobl gymorth wyneb yn wyneb

dros
48,000



o bobl help drwy e-bost

8,000



o bobl gymorth gwe-sgwrs


4,500



o dystion gefnogaeth
trwy'r Gwasanaeth Tystion*

* Rydym yn darparu cymorth di-dâl ac annibynnol i dystion a dioddefwyr ym mhob llys troseddol yng Nghymru er mwyn eu helpu i roi eu tystiolaeth orau. Mae ein gwasanaeth yn cydnabod bod dioddefwyr a thystion yn aml yn wynebu problemau eraill sy'n croesi â'u pryderon am fynychu'r llys, ac rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill – gan gynnwys Cyngor ar Bopeth Lleol – i'w helpu i gael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Ein heffaith mewn niferoedd



Sut gwnaethom ni helpu pobl

319,000
o alwadau ffôn a galwadau Advicelink

220,000
e-bost wedi'i anfon

73,000
o sgysiau wyneb yn wyneb

6,000
gwe-sgwrs

Ein gwerth i gymdeithas

Rydym yn defnyddio model sefydledig i gyfrifo gwerth ariannol ein cyngor a'r canlyniadau cadarnhaol y mae'n ei gyfrannu i unigolion a chymdeithas. Dros 2024/25, darparodd gwasanaeth Cyngor ar Bopeth Cymru'r canlynol:



£437 miliwn

Rydym yn amcangyfrif bod ein gwerth cymdeithasol ac economaidd cyfan i gymdeithas dros y flwyddyn yn £437 miliwn.



£58 miliwn

Arbedasom £58 miliwn i'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus.



£376 miliwn

Ein hamcangyfrif o arbedion i'n cleientiaid oherwydd dyledion a ddilëwyd, budd a enillwyd neu trwy ddatrys problemau defnyddwyr yw £376 miliwn

Cefnogwr y bobl ers 85 mlynedd
Adroddiad Effaith Cyngor ar Bopeth 2024–2025



Ni yw cefnogwr y bobl.

Mae Cyngor ar Bopeth yn helpu pobl i ddod o hyd i ffordd ymlaen.

Rydym yn darparu cyngor rhad ac am ddim, cyfrinachol ac annibynnol i helpu pobl i oresgyn eu problemau. Rydym yn llais dros ein cleientiaid a'n defnyddwyr ar y materion sy'n bwysig iddynt.

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb, ac yn herio gwahaniaethu a bwlio. Rydyn ni yma i bawb.

citizensadvice.org.uk/cymraeg



Manylion cyswllt: :

Am ymholiadau'r wasg, e-bostiwch press.office@citizensadvice.org.uk

Am faterion polisi, e-bostiwch policy.cymru@citizensadvice.org.uk

©Cyngor ar Bopeth Medi 2025.

Mae Cyngor ar Bopeth yn un o enwau gweithredol The National Association of Citizens Advice Bureaux. Rhif elusen gofrestredig: 279057.